DYFODOL RHEILFFYRDD YN WRECSAM:

DYHEADAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Mae'r ddogfen hon yn nodi dyheadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) o ran gwasanaethau a rhwydweithiau mewnol y rheilffyrdd yn ardal y Fwrdeistref Sirol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn un o 22 awdurdod lleol unedol yng Nghymru. Bwriad y ddogfen hon yw bwydo'r ddogfen gweithredu lleol a Chynllun Cludiant Rhanbarthol (CCRh) TAITH[1]. Bydd Consortiwm Cludiant Rhanbarthol TAITH yn cynhyrchu'r CCRh ar ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ryddhau Strategaeth Cludiant Cymru. Bydd awdurdodau cyfansoddol eraill yn TAITH yn rhannu nifer o'r un dymuniadau datblygiadol o ran rheilffyrdd yn eu hardaloedd eu hunain. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu blaenoriaethau yng Nghynllun Gofodol Cymru ac mae'n cyfrannu at amcanion corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn arbennig "Gwella Ffyrdd a Chludiant" a "Gwella Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (gan gynnwys cynaladwyedd)". Caiff y ddogfen hon ei diwygio'n achlysurol fel sy'n briodol.

Nod y Cynllun Cludiant Rhanbarthol, sy'n debyg iawn i'r Cynllun Cludiant Lleol ac a fydd yn cymryd ei lle ymhen amser, yw nodi gwelliannau i wahanol fathau o gludiant cynaliadwy gan leihau dibyniaeth ar gludiant preifat a chludiant ffyrdd. Bydd y ddogfen hon yn sail i'r strategaeth weithredu leol ar gyfer cludiant cynaliadwy (yn arbennig mewn perthynas â rheilffyrdd) ac ategir ati gan strategaethau tebyg ar gyfer cerdded, beicio, bysiau a thacsis, cludiant cymunedol a chludo nwyddau ar ffyrdd.

Bwriad y strategaeth hon yw ategu at ddogfennau strategol cymeradwy eraill a gyhoeddwyd ac a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan gynnwys:

- ✓ Y Cynllun Datblygu Unedol
- ✓ Y Cynllun Datblygu Lleol
- ✓ Y Strategaeth Gymunedol
- ✓ Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

yn ogystal â strategaethau rhanbarthol y mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddiddordeb ynddynt megis 'Strategaeth Economaidd Ranbarthol y Gogledd-orllewin 2006' a '*Strategy to Reality' :* Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd Chwefror 2005.

Y rheilffyrdd sy'n rhedeg trwy ardal CBSW yw llinell Caer - Wrecsam - Yr Amwythig (gan gynnwys Gorsaf Gyffredinol Wrecsam, Gorsafoedd Rhiwabon a'r Waun) a llinell y gororau Wrecsam - Bidston (gan gynnwys Gorsaf Ganolog Wrecsam, Gorsaf Gyffredinol Wrecsam a gorsaf Gwersyllt). Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn berchen ar reilffyrdd na gwasanaethau rheilffordd nac yn eu gweithredu ond mae'n gweithio i ddarparu buddion cynaliadwy i'r sector rheilffyrdd.

[1] – TAITH yw'r consortiwm cludiant rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru, gan gynnwys CBS Wrecsam, CS Y Fflint, CS Ddinbych, CBS Conwy, CS Gwynedd a CS Ynys Môn.

1.0 Nodau ac Amcanion Strategol

1.1 Cynnal y gwasanaeth a ddarperir gan Fasnachfraint Rheilffyrdd Cymru Gyfan a'i Gwmni Gweithredu Trenau (CGT) presennol - Trenau ARRIVA Cymru, a'i wella'n briodol. Caiff hyn ei gyflawni trwy ymgynghori â Network Rail, Yr Adran Drafnidiaeth (Rheilffyrdd), LlCC a phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol amrywiol yn y sector rheilffyrdd.

1.2 Sicrhau bod rhwydweithiau mewnol, y cerbydau a'r cledrau'n cael eu cynnal a'u cadw a'u hehangu i'r safon uchaf posibl ar gyfer gwasanaethau sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol er budd pawb, o ran prydlondeb a lle digonol, byddai hyn yn cynnwys gwelliannau cyflymder priodol ar y llinellau.

1.3 Lobïo am wasanaeth rheilffyrdd uniongyrchol o orsaf gyffredinol Wrecsam i Lundain ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys cefnogi cynnig WSMR[2].

1.4 Lobïo am gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd penodol yn y cynllun teithiau gostyngol presennol i'r henoed, yr anabl a'r ifanc, ymhlith grwpiau eraill a nodwyd, trwy hyrwyddo gwasanaethau rheilffyrdd priodol fel math cymwys o gludiant.

1.5 Monitro ac archwilio newidiadau a chynigion yn ymwneud â darparu gwasanaethau rheilffyrdd er mwyn bwydo gwelliannau yn y modd gorau, gan weithio ar y cyd â'r CGT llywyddol i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r teithwyr.

1.6 Cynyddu symudiadau nwyddau ar reilffyrdd a hysbysu'r Adran Drafnidiaeth (Rheilffyrdd) a Network Rail o gyfleoedd wrth iddynt godi.

1.7 Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau preswyl a masnachol newydd, yn arbennig y rheiny sy'n eithaf agos at linellau rheilffordd. Sicrhau bod cyfleoedd perthnasol yn cael eu cymryd i gynyddu potensial datblygiadau tebyg. Dadansoddi cyfleoedd a allai fodoli wrth ddyfarnu caniatâd cynllunio i ddatblygwyr, yn arbennig mewn perthynas ag arian adran 106 a allai ddod, gwella cysylltiadau rheilffyrdd a'r defnydd a wneir o wasanaethau rheilffyrdd gan breswylwyr newydd a phreswylwyr presennol, mewn gorsafoedd presennol a gorsafoedd newydd. Ar gyfer datblygiadau arfaethedig mewn mannau sy'n bell oddi

[2] WSMR yw cwmni rheilffordd Wrecsam - Yr Amwythig - Marylebone sy'n dadansoddi potensial gwasanaeth uniongyrchol o Wrecsam trwy'r Amwythig i Lundain (Marylebone)

wrth y rhwydwaith rheilffyrdd presennol, dylid ystyried cyflwyno gwasanaethau cysylltu priodol sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

1.8 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i weithio ar y cyd â phartneriaethau rheilffyrdd i ddatblygu gwasanaethau rheilffyrdd a chynyddu'r posibilrwydd o symudiad moddol. Mae aelodau Partneriaeth Rheilffyrdd Caer - Yr Amwythig[3] yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn a chynhelir cyfarfodydd ar wahân ar gyfer swyddogion ac aelodau etholedig o bob sefydliad partner. Mae Grŵp Llywio'r Gororau[4] hefyd yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn fel grŵp swyddogion. Gobeithir hwyluso cyfarfodydd rhwng aelodau etholedig o awdurdodau partner yn y dyfodol agos.

1.9 Cydnabyddir bod gwaith y Cymdeithasau Defnyddwyr y Rheilffyrdd ar gyfer y ddwy linell yn y Fwrdeistref Sirol yn allweddol i'r broses ymgynghori barhaus ar gyfer gwella gwasanaethau rheilffyrdd. Bydd y Cyngor yn parhau â'i aelodaeth a'i gynrychiolaeth yn y ddau sefydliad hyn.

2.0 Nodau ac Amcanion Penodol

2.1 Cynyddu potensial llinell y Gororau (mewn cydweithrediad â Chyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Gaer a Merseytravel) a llinell Caer – Wrecsam – Yr Amwythig (mewn cydweithrediad â Fforwm Bartneriaethau).

2.2 Gweithio i gael ateb cadarn i'r broblem â chledrau sengl rhwng Wrecsam a Chyffordd Saltney oherwydd y teimlir bod hyn yn wendid yn y rhwydwaith, yn arbennig ers i'r APS gael eu cyflwyno[5]

2.3 Gweithredu argymhellion yr adroddiad ar drydanu llinell y Gororau, gan Faber Maunsell a lobïo am gefnogaeth genedlaethol ar gyfer y gwelliannau hynny a nodir, trwy'r Adran Drafnidiaeth (Rheilffyrdd), LlCC ac awdurdodau cyfagos o Loegr.

[3] mae'r aelodau'n cynnwys Cyngor Dinas Caer, Cyngor Sir Gaer, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Croesoswallt, Yr Amwythig ac Atcham, Cyngor Swydd Yr Amwythig a Threnau Arriva Cymru.
[4] mae'r aelodau'n cynnwys Adran Weithredol Cludiant Teithwyr Merseytravel (sy'n cynrychioli Cyngor Metropolitan Cilgwri a Dinas Lerpwl), Cyngor Sir Gaer, Cyngor Sir y Fflint, Trenau Arriva Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
[5] - APS - O ganlyniad i Amserlenni Patrwm Safonol, a gyflwynwyd gan Drenau Arriva Cymru ar 11 Rhagfyr 2005, cynyddodd nifer y trenau a weithredir rhwng Caer a'r Amwythig. Erbyn hyn rhedir y gwasanaeth bob awr trwy gydol y dydd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

2.4 Gweithio gyda'r CGT i gyflwyno Gwybodaeth Gydamserol a gwella amserlenni a gwybodaeth berthnasol arall yn gyffredinol ym mhob gorsaf reilffordd yn ardal y Fwrdeistref Sirol.

2.5 Lobïo a chefnogi'r CGT i wneud gwelliannau priodol i orsafoedd presennol a gorsafoedd newydd posibl yn y dyfodol, yn arbennig gosod camerâu cylch cyfyng mewn gorsafoedd ac ar drenau, er mwyn gwella diogelwch a sicrwydd personol cyffredinol ar y dull hwn o deithio.

2.6 Nodi a gwella mentrau ar y cyd â sefydliadau eraill sydd â nodau tebyg er mwyn gwella a hyrwyddo teithiau ar drenau.

2.7 Archwilio cyfleoedd i wella mynediad at orsafoedd gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio, cyfnewidfeydd bysiau / trenau, cyfleusterau parcio a theithio a darpariaeth barcio bwrpasol mewn rhai gorsafoedd, yn debyg i'r datblygiadau yng Ngorsaf Rhiwabon - ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

2.8 Hyrwyddo Gorsaf Rhiwabon ymhellach fel man cyfnewid aml-foddol ac effeithiol trwy gynyddu nifer y gwasanaethau bws sy'n galw yn yr orsaf. Parhau i gefnogi a bwydo datblygiadau'r dyfodol trwy ddarparu cyhoeddusrwydd o ansawdd mewn cydweithrediad â'r bartneriaeth rheilffyrdd. Hefyd, symud ymlaen tuag at amserlen bysiau cadarn ar gyfer cysylltiadau rhwng bysiau a threnau yng Ngorsaf Y Waun.

2.9 Parhau i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau rheilffyrdd, yn arbennig ymysg cymunedau a busnesau o amgylch gorsafoedd yn ogystal â thrwy grwpiau megis y Bartneriaeth Pobl Ifanc.

2.10 Parhau â'r ymrwymiad i weithio ar y cyd â'r Partneriaethau Rheilffyrdd, mewn perthynas â mabwysiadu gorsafoedd, gan adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd yn y Waun.

2.11 Gweithio gyda phartneriaid i wella mynediad a chyfleusterau mewn gorsafoedd, yn arbennig mewn perthynas â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

2.12 Archwilio'r cyfleoedd i reilffyrdd ddarparu cludiant i ysgolion/colegau ar gyfer myfyrwyr cymwys gan gynyddu ymwybyddiaeth pawb o'r gwasanaeth ar yr un pryd, yn arbennig y rheiny sy'n byw yn nalgylchoedd y gorsafoedd presennol.

2.13 Cefnogi datblygiad cynlluniau mewn ardaloedd anghysbell i wella cyfleoedd i deithio ar drenau ymhellach. Enghraifft o hyn yw prosiect Halton Curve a allai arwain at ddarparu trenau uniongyrchol i faes awyr Lerpwl o ardal Wrecsam a gogledd Cymru.

2.14 Sefydlu prosesau monitro er mwyn mesur twf teithwyr a lefelau boddhad cwsmeriaid ar linell y Gororau a llinell Caer - Wrecsam - Yr Amwythig, mewn partneriaeth â'r CGT a *Passenger Focus*.

3.0 **Cynlluniau a chefndir presennol**

3.1 Cyflwynwyd adroddiad, a gomisiynwyd gan TAITH, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Sir Gaer (CSG) a Merseytravel, i Bartneriaeth y Gororau ym Mawrth 2006 gan Faber Maunsell Consultancy i weld pa gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer gwella llinell y Gororau. Ar hyn o bryd mae llinell y Gororau yn gweithredu gwasanaeth trenau disel o Orsaf Ganolog Wrecsam trwy Orsaf Gyffredinol Wrecsam a Gwersyllt yna i'r gogledd trwy Shotton i Gilgwri, gan orffen yn Bidston lle y gellir cael cysylltiad i wasanaethau Merseyrail Electrics i Lerpwl, West Kirby, Ellesmere Port a Chaer. Ymhlith y cynigion a ddadansoddwyd yn adroddiad Faber Maunsell y mae trydanu rhan o'r llinell neu'r llinell gyfan er mwyn ehangu cyfleoedd. Ystyrir mai'r rhwystr i gynyddu teithwyr ar wasanaeth y Gororau yw'r gofyn presennol i newid gwasanaethau yn Bidston ar gyfer Lerpwl. Mae'r arfarniad hwn yn rhoi ystyriaeth ddyledus i faterion gan gynnwys y statws Dinas Diwylliant a ddyfarnwyd i Lerpwl ar gyfer 2008, statws canol tref Wrecsam sy'n gwella'n barhaus fel un sy'n denu teithiau busnes, hamdden a siopa ac Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy fel ardal gyflogaeth sy'n tyfu. Byddai trydanu'r llinell i gyd neu ran ohoni yn arwain at well effeithlonrwydd, amledd gwasanaeth, teithiau di-dor o un pen i'r llall a mwy o le. Roedd Merseyrail wedi rhaglennu dichonoldeb ar gyfer ymestyn llinell drydan i'r de o Bidston i Woodchurch cyn dechrau'r astudiaeth. Mewn partneriaeth â Merseytravel, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru nawdd i National Rail ym mis Gorffennaf 2006 i ddarparu arfarniad yn rhestru costau'r opsiynau trydanu a nodwyd gan Faber Maunsell.

3.2 Mae gwasanaeth ar y Sul wedi'i gymeradwyo a'i sicrhau ar gyfer llinell Wrecsam - Bidston. Oherwydd dyfodiad y gefnogaeth refeniw gan Merseytravel, o 11 Rhagfyr 2005, bydd y llinell yn ennill budd o gael chwe thrên yn dychwelyd bob dydd Sul trwy gydol y flwyddyn. Yn flaenorol roedd gan y llinell dair siwrnai yn dychwelyd ar ddydd Sul yn ystod tymor y gaeaf. Mae cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn parhau i roi cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau tebyg.

3.3 Mae dyfodiad yr APS wedi arwain at gynnal a chadw amledd y gwasanaeth masnachol (bob awr yn ystod yr wythnos) ar gyfer llinell y Gororau ac estynnwyd y gwasanaeth ar linell Caer - Wrecsam - Yr Amwythig i ddarparu gwasanaeth bob awr drwy'r dydd. Erbyn hyn, mae llinell Caer - Wrecsam - Yr Amwythig yn ffurfio rhan o ddau wasanaeth pellter hir, sef gwasanaeth bob dwy awr Caergybi - Caerdydd a Chaer - Birmingham, y ddwy'n rhedeg bob dwy awr.

3.4 Ym mis Chwefror 2006, penododd Partneriaeth Caer - Yr Amwythig Scott Wilson Railways i gynnal astudiaeth o'r llinell er mwyn dadansoddi opsiynau i fynd i'r afael â'r cledrau sengl rhwng Wrecsam a Chyffordd Saltney, y posibilrwydd o gael gorsaf newydd yn seiliedig ar feini prawf yr Adran Drafnidiaeth (Rheilffyrdd), cydymffurfio'r â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd mewn gorsafoedd, gwella cyfnewidfeydd a chyfleusterau beicio yn ogystal â'r farchnad ar gyfer rheilffyrdd. Dylai'r astudiaeth a ariennir gan TAITH, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trenau Arriva Cymru, Cyngor Sir Gaer, Cyngor Sir Amwythig a Chyngor Tref Croesoswallt, fod yn barod yn ystod Awst 2006. Fe'i defnyddir wedyn fel dogfen strategol i strwythuro a llywio penderfyniadau'r dyfodol.

4.0 **Dyheadau'r dyfodol**

4.1 Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd

4.1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn awyddus i sicrhau bod y nifer fwyaf bosibl o gyfleoedd yn cael eu cymryd i alluogi symudiad moddol o gludiant preifat i gludiant cyhoeddus. Trwy ddatblygu gwell gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr, teimla'r Cyngor ei fod yn rhoi dewis go iawn i'r teithwyr o ran lleihau tagfeydd a manteision cymdeithasol ac economaidd hyn yn lleol ac yn genedlaethol. Rhaid i ni ymdrechu i sicrhau ein bod yn ymelwa ar gyfleoedd o ran integreiddio symudiad nwyddau ar reilffyrdd i gael gwell cynaladwyedd yn ogystal â chyfrannu tuag at dargedau ecolegol, amgylcheddol ac economaidd. Caiff symudiadau nwyddau ar reilffyrdd eu dadansoddi hefyd fel rhan o Astudiaeth Caer - Yr Amwythig.

4.1.2 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrechu i gynyddu'r cyfleoedd y gall y rhwydwaith rheilffyrdd eu darparu yn hyn o beth. Llwyddodd prawf diweddar (yn 2005, a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) i ddangos y gellir symud coed o'r canolbarth (Aberystwyth) i Kronospan (Y Waun). Llwyddodd y prawf hwn i dynnu nifer sylweddol o loriau HGV oddi ar rwydwaith y ffyrdd. Byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn croesawu cynnal prawf arall a mentrau eraill yn hyn o beth.

4.1.3 Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, rhoddir ystyriaeth i ddatblygu pennau rheilffyrdd nwyddau er mwyn hwyluso mwy o ddefnydd o'r rhwydwaith. Bydd y Cyngor yn cefnogi cynigion priodol a chynaliadwy a geir er mwyn ceisio datblygu'r cyfleuster hwn. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisio am arian i ddatblygu pennau rheilffyrdd yn ôl yr angen. Asesir anghenion rhanbarthol ar y cyd ag asiantaethau partner megis Taith, Northern Gateway a Chynghrair Mersey Dee.

4.2 Datblygiad Cynaliadwy

4.2.1 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrechu i sicrhau bod datblygiadau newydd o natur fasnachol a phreswyl yn cael eu canoli ar lwybrau cynaliadwy presennol, nid rheilffyrdd, cyn belled â bo hynny'n bosibl. Ar ôl derbyn ceisiadau newydd, bydd y Cyngor yn ystyried gwneud gwell defnydd o'r rhwydwaith mewnol. Gallai hyn gynnwys cyfleoedd i wella cysylltiadau a chyfleusterau parcio mewn gorsafoedd er mwyn bodloni'r angen i gael preswylwyr i ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffordd ar gyfer teithiau byr, canolig a hirach.

4.2.2 Os daw datblygiadau preswyl arfaethedig yn agos at orsafoedd rheilffyrdd presennol, dylai'r Cyngor ystyried gofyn i'r datblygwyr gynnig gostyngiad teithio ar reilffyrdd i ddarpar breswylwyr er mwyn gwella'r potensial ar gyfer symudiad moddol ymhellach.

4.2.3 Wrth ystyried datblygiadau ar dir yn agos at reilffyrdd, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystyried p'un a ddylid cadw ac amddiffyn y tir ar gyfer datblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd mewnol yn y dyfodol. Enghraifft o hyn yw statws cadwedig y tir gyferbyn â'r rheilffordd yn Johnstown, a nodwyd mewn adroddiad Oscar Faber (1999) fel safle ar gyfer gorsaf newydd bosibl ar y llinell Caer - Wrecsam - Amwythig. Hefyd mae nodiadau polisi cynllunio yn nodi pwysigrwydd amddiffyn rhwydwaith mewnol tebyg.

4.3 Parcio a Theithio

4.3.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dyheu i gyflwyno cyfleuster parcio a theithio ar gyfer tref Wrecsam yn y dyfodol pan ddaw'n briodol i wneud hynny. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn arfarnu'r opsiynau i gynnig parcio a theithio trwy gyfrwng rheilffyrdd. Mae'n ffaith amlwg y byddai angen i'r defnyddwyr gael gwasanaeth sy'n rhedeg ddwywaith yr awr o leiaf er mwyn gweithredu gwasanaeth parcio a theithio atyniadol. Dylid nodi nad oes unrhyw wasanaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol yn gweithredu yn amlach na bob awr o ganlyniad i'r APS[3] ond mae'r un cynnig hwnnw yn Astudiaeth y Gororau yn cynnwys gwasanaeth bob hanner awr trwy gydol y dydd (ac eithrio dydd Sul).

4.3.2 Os caiff gwasanaeth rheilffordd y Gororau ei uwchraddio i wasanaeth bob 30 munud, dylid ystyried datblygu gorsaf bresennol briodol neu orsaf newydd er mwyn cynnig gwasanaeth parcio a theithio, yn arbennig o ystyried fod gwasanaeth y Gororau yn cynnig gwell treiddgarwch gan ei fod yn galw yng ngorsafoedd Cyffredinol a Chanolog Wrecsam.

4.4 Cydraddoldeb

4.4.1 Er nad yw'r gwaith o ailwampio ac adnewyddu rhwydwaith mewnol y gorsafoedd presennol yn gorfod cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, mae angen i rwydweithiau mewnol newydd gyrraedd y safonau a osodir. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrechu i gydymffurfio â'r ddeddf ym mhob rhan o'r rhwydwaith rheilffyrdd er mwyn cynyddu symudiad moddol a hwyluso gwell integreiddiad rhwng moddau, gan roi'r cyfle i gymaint o bobl ag sy'n bosibl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.

4.4.2 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cefnogi'r sector rheilffyrdd i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb eraill megis defnyddio ieithoedd eraill wrth roi cyhoeddusrwydd a rhoi cymorth i unigolion sy'n ddifreintiedig mewn ffyrdd heblaw am symudoledd.

4.5 Cynllunio teithiau

4.5.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn hyrwyddo'r defnydd o wasanaethau rheilffyrdd, yn ogystal â chludiant cyhoeddus yn gyffredinol, yn ei ganllawiau teithio a chynhaliaeth. Mae swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn ystyried defnyddio'r gwasanaethau rheilffyrdd ar gyfer teithiau busnes, yn arbennig rhai mewn mannau pellach i ffwrdd.

4.5.2 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn annog busnesau lleol i ystyried defnyddio cludiant cyhoeddus ar gyfer dibenion busnes yn yr un modd trwy godi ymwybyddiaeth o wasanaethau rheilffyrdd yn gyffredinol ledled y gymuned leol.

4.5.3 Mae darparu gwasanaethau rheilffyrdd yn agwedd allweddol o Gynllun Teithio Gwyrdd y Cyngor yn ogystal â'r holl foddau cynaliadwy. Gellir neilltuo Bws Gwennol Wrecsam, sef cludiant sy'n ymateb i alw yn Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, o flaen llaw i alw yng Ngorsaf Gyffredinol Wrecsam er mwyn i ymwelwyr a chyflogwyr deithio'n gynaliadwy o leoliadau y tu allan i'r ardal leol.

5.0 Ymgynghoriad

5.1 Mewnol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymroddedig i sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid yn cael cyfle i roi sylwadau am gynigion sy'n effeithio arnynt. Cydnabyddir bod angen i nifer o adrannau mewnol y Cyngor gynnal cysylltiadau rhagweithiol â'r rheilffyrdd a'u problemau. Ymgynghorwyd â phob adran wrth gynhyrchu'r ddogfen hon a byddant yn cymryd rhan barhaus mewn gwelliannau sydd ar y gweill yn ogystal â phroblemau a gwelliannau.

5.2 Allanol

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i weithio gyda budd-ddeiliaid allanol i ddarparu'r lefel wasanaeth fwyaf manteisiol. O ystyried hyn, cynhelir ymgynghoriad â sefydliadau partner megis:

- ✓ Taith
- ✓ Llywodraeth Cynulliad Cymru (yn ogystal â chynrychiolwyr lleol sy'n aelodau)
- ✓ Yr Adran Drafnidiaeth Rheilffyrdd
- ✓ Network Rail
- ✓ Llywodraeth y Deyrnas Unedig (yn ogystal â chynrychiolwyr lleol sy'n aelodau)
- ✓ Awdurdodau Lleol cyfagos
- ✓ Cynghorau Tref a Chymuned ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam
- ✓ Cwmnïau gweithredu trenau - Trenau Arriva Cymru a Threnau Virgin
- ✓ *Passenger Focus* (Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd newydd).
- ✓ Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffordd Yr Amwythig - Caer
- ✓ Cymdeithas Defnyddwyr Rheilffordd Wrecsam - Penbedw
- ✓ Partneriaethau Rheilffyrdd Lleol
- ✓ Awdurdodau Datblygu Cymru a'r Gogledd Orllewin, Advantage West Midlands
- ✓ Partneriaeth y Bobl Ifanc
- ✓ Y Bwrdd Iechyd Lleol
- ✓ Ymddiriedolaeth Iechyd Lleol
- ✓ Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- ✓ Sefydliadau Addysg Bellach / Uwch (e.e. Iâl a NEWI)
- ✓ Bwrdd Croeso Cymru (Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru)
- ✓ CBI a'r Siambr Fasnach

- ✓ Ffederasiwn y Busnesau Bach
- ✓ Undebau Llafur
- ✓ Lobi Amgylcheddol
- ✓ Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- ✓ Asiantaeth yr Amgylchedd
- ✓ Transport 2000
- ✓ Dyfrffyrdd Prydain
- ✓ Cymdeithas Rheilffyrdd Llangollen
- ✓ Kronospan